

# Gweithiwr Cymdeithasol – Tîm Ymyriadau TeuluolTeam

## Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso: £33,024 – £35,745

## Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus £36,648 – £39,186

## Parhaol, 37 awr yr wythnos

Mae ein tîm Ymyriadau Teuluol yn gweithio'n agos gyda Chyswllt Cyntaf a Chefnogaeth wedi'i Thargedu i ddwysau neu leihau'r gefnogaeth yn ôl yr angen. Byddwch yn ymuno â thîm sefydledig, sy'n gweithredu ar draws ein cylch gwaith Gwasanaethau Plant, a byddwch yn gyfrifol am sicrhau y ffurfir polisïau a gweithdrefnau, ac y cydymffurfir â nhw. Byddwch yn derbyn llwyth o achosion amddiffyn plant a llys.

Mae'n rhaid i chi fod yn ymarferydd cryf ac yn gallu darparu ystod o ofal cymdeithasol o ansawdd uchel a chost effeithiol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant mewn angen. Dylech feddu ar wybodaeth am arferion cyfredol a disgwyliadau'r gwasanaethau cymdeithasol o ran sgiliau cyfreithiol ac ymarferol.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o'r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda theuluoedd, timau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos tystiolaeth o angerdd a phenderfyniad i fodloni gofynion y rôl hon.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru ac oherwydd y bydd y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Amber Jones (Rheolwr Tîm) ar amber.jones@flintshire.gov.uk

Os ydych chi'n Fyfyriwr Gwaith Cymdeithasol yn eich blwyddyn olaf o astudio a byddai gennych chi ddiddordeb mewn swydd gyda Sir y Fflint, cysylltwch â Amber Jones: amber.jones@flintshire.gov.uk i gael trafodaeth anffurfiol am y cyfleoedd sydd ar gael.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council